



Gwasanaeth Carchardai
a Phrawf EM

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar y 7^{fed} o Fehefin 2019
Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Prawf EM: Cwmni Adsefydlu
Cymunedol Cymru
Cyhoeddwyd yr Adroddiad: Gorffennaf 2019

RHAGARWEINIAD

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arolygydd annibynnol sy'n craffu ar wasanaethau prawf a gwasanaethau troseddwr ifanc yng Nghymru a Lloegr. Mae'n adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a gwasanaethau troseddwr ifanc gydag oedolion a phlant.

Mewn ymateb i'r adroddiad, disgwylir i HMPPS/MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol yn ymateb i'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu yn cadarnhau a gytunwyd â'r argymhellion ai peidio neu a chytunwyd â hwy'n rhannol (gweler y categorïau isod). Pan gytunwyd â'r argymhelliad neu pan gytunwyd ag ef yn rhannol, mae'r cynllun gweithredu yn darparu camau gweithredu penodol yn ymateb i'r argymhellion hyn. Mae'r camau gweithredu yn eglur, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol a nodir gweithredwr ac amserlen pob cam yn eglur. Cyhoeddir cynlluniau gweithredu ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. At hynny, bydd unrhyw gynnydd o ran gweithrediad a chyflawniad y cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro gan HMPPS/MoJ a'i adolygu'n flynyddol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Argymhelliad	Diffiniad	Sylwadau ychwanegol
Cytunwyd	Cytunwyd yn llwyr â'r argymhelliad, gellir ei wireddu ac mae'n fforddiadwy.	Dylai'r ymateb egluro'n glir sut caiff yr argymhelliad ei wireddu ynghyd â'r amserlen. Dylai'r camau gweithredu ddilyn egwyddorion SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig a Phennu Amser) cyn belled ag y bo modd, a dylent fod yn ddigon penodol fel y gellir olrhain cynnydd.
Cytunwyd yn Rhannol	Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunwyd ag ef, y gellir ei wireddu, sy'n fforddiadwy ac y byddir yn ei weithredu. Efallai fod hyn am na allwn weithredu'r argymhelliad yn ei gyfanrwydd am resymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd.	Rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir pa ran o'r argymhelliad a weithredir ynghyd â chamau yn dilyn egwyddorion SMART sy'n ddigon penodol fel y gellir olrhain cynnydd. Rhaid egluro pam na ellir cytuno'n llwyr â'r argymhelliad - rhaid i'r eglurhad nodi'n glir ai rhesymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu ynteu fforddiadwyedd sy'n cyfrif am hynny.
Ni Chytunwyd	Ni chytunwyd â'r argymhelliad ac ni fydd yn cael ei weithredu. Efallai fod hyn am resymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu neu fforddiadwyedd.	Rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir pan ddewiswyd yr opsiwn hwn. Rhaid egluro pam na ellir cytuno â'r argymhelliad - rhaid i'r eglurhad nodi'n glir ai rhesymau ynglŷn â chomisiynu, polisi, gweithredu ynteu fforddiadwyedd sy'n cyfrif am hynny.



CYNLLUN GWEITHREDU: Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

1. Rhif yr Arg	2. Argymhelliad	3. Cytunwyd / Cytunwyd yn Rhannol / Ni Chytunwyd	4. Ymateb Cam Gweithredu a Gymerwyd/a Gynlluniwyd	5. Gweithredwr Cyfrifol (gan gynnwys enwau unigolion a'u swyddogaeth, rôl neu adran)	6. Dyddiad Targed
1	Rheoli llwyth gwaith staff yn well, a darparu digon o staff i gyflawni gwasanaethau fel y bwriedir	Cytunwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Modelu adnoddau staff Swyddog Cyfrifol Cymru (RO) yn erbyn adnodd rheoli llwyth gwaith a model gweithredu Swyddog Prawf (PO) HMPPS/Swyddog y Gwasanaeth Prawf (PSO), yn barod ar gyfer y cyfnod trosglwyddo staff yn ddiweddarach yn 2019 • Adnoddau'r staff ymyriadau i'w modelu yn erbyn model gweithredu Caint, Surrey a Sussex (KSS) • Unwaith bydd y model adnoddau wedi'i gytuno gyda KSS a HMPPS Cymru (ar gyfer ROs), cychwyn ymgyrch recriwtio i lenwi swyddi gwag penodol ar gyfer pob rôl ac adolygu'r cynnydd pob pythefnos yng nghyfarfodydd Bwrdd Trawsnewid Gweithrediadau Cymru a De Orllewin Lloegr • Enwebu 6 Swyddog Prawf dan hyfforddiant i ddechrau'r Cymhwyster Prawf Proffesiynol yng Ngorffennaf 2019 • Cytuno ar gynllun i flaenoriaethu'r llwyth gwaith i aros am y recriwtio. 	<p>Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid</p> <p>Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid</p> <p>Pennaeth AD</p> <p>Prif Swyddog</p> <p>Prif Swyddog</p>	<p>Mehefin 2019</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
2	Gwella ansawdd y gwaith cynllunio i fynd i'r afael â'r risg o niwed a diogelu	Cytunwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu 'Gweithdai Rheoli Dedfryd' gorfodol ledled Cymru a fydd yn canolbwyntio ar asesu risg a chynllunio rheoli risg, diogelu a chofnodi penderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r risg o niwed. Bydd lefelau presenoldeb yn cael eu holrhain ac fe roddir gwybod i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol am y rhai hynny nad ydynt yn mynychu 	Rheolwr Ansawdd	Gorffennaf 2019



			<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu digwyddiadau dysgu cymheiriaid ‘Dysgu Cymru’ ar gyfer adolygu achosion cymheiriaid. Bydd achosion yn cael eu harchwilio gan Swyddogion Prawf a Swyddogion y Gwasanaeth Prawf a byddant hefyd yn cynnwys gwiriadau i sicrhau bod ansawdd y risg o niwed a diogelu yn amlwg. Bydd y camau gweithredu'n cael eu hanfon at RO unigol a Rheolwyr Tîm i'w cwblhau. Bydd y digwyddiadau'n cael eu cadeirio gan Brif Swyddogion Cynorthwyol ac fe rennir adroddiad crynhoi o'r canfyddiadau gydag Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cymru i'w ddsbarthu i'r holl staff • Ail-anfon canllawiau Cynllun Rheoli Risg a thempledi Chynllun Rheoli Risg o ansawdd da i staff drwy e-bost gyda dolen bellach i Lyfrgell Gyfeirio Gwasanaeth Prawf Cymru • Archwiliadau achos misol, wedi'u halinio â Safonau HMIP i'w cynnal gan yr holl Reolwyr Tîm Rheoli Troseddwyr (OM) a'u dychwelyd i'r Tîm Rhagoriaeth ac Effeithiolrwydd • Canfyddiadau o archwiliadau achos i'w rhannu gyda'r staff ac Uwch Arweinyddion gan ddefnyddio dolenni dysgu • Ymarfer Sicrhau Ansawdd OASys i'w gwblhau ar sampl o achosion ledled Cymru bob chwarter. Rhoi adborth unigol i staff a Rheolwyr Tîm ar gyfer camau i'w cymryd lle bo angen. Amlygu unrhyw themâu yng nghyfarfodydd yr Uwch Arweinwyr a'r Arweinwyr Canol • Defnyddio archwiliadau achos a digwyddiadau Dysgu Cymru i fonitro a darparu sicrwydd o ddefnydd effeithiol o ymweliadau cartref. 	<p>Rheolwr Ansawdd</p> <p>Rheolwr Ansawdd</p> <p>Holl Reolwyr y Tîm Rheoli Troseddwyr</p> <p>Rheolwr Ansawdd</p> <p>Rheolwr Ansawdd</p> <p>Rheolwr Ansawdd</p>	<p>Mehefin 2019</p> <p>Gweithgarwch misol parhaus</p> <p>Gweithgarwch misol parhaus</p> <p>Gweithgarwch chwarterol parhaus</p> <p>Gweithgarwch misol parhaus</p> <p>Gweithgarwch misol parhaus</p>
--	--	--	---	--	--



3	Darparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sy'n diwallu anghenion staff a monitro effaith hyfforddiant ar yr arferion gwaith	Cytunwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal archwiliad cymwysterau a sgiliau • Datblygu cynllun hyfforddi ymarferol ar gyfer PO/PSO a fydd yn trosglwyddo i staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a staff Ymyriadau a fydd yn aros yn y CRC • Rhoi'r cynllun hyfforddi a'r data cwblhau i'r Tîm Rhagoriaeth ac Effeithiolrwydd a'r Rheolwyr Tîm i sicrhau bod effaith datblygiad ymarferion yn cael ei fonitro drwy'r prosesau Archwilio Achosion, Sicrhau Ansawdd OASys a goruchwyllo. Bydd y gwelliannau'n cael eu mesur trwy ddadansoddiad data misol • Sicrhau bod pecyn Dysgu a Datblygu llawn KSS ar gael i CRC Cymru drwy gydol y flwyddyn hon a pharatoi cofnod o'r hyfforddiant a ddarparwyd ac a gafwyd i HMPPS • O ganlyniad i'r archwiliad sgiliau, sicrhau bod gweithgareddau dysgu a datblygu ac offer priodol ar gael i weithwyr ymyriadau • Rheolwyr Ymyriadau ac Uwch Hwyluswyr Ymyriadau i fonitro effaith gweithgareddau hyfforddi a datblygu trwy brosesau arsylwi, Monitro Triniaeth ac adborth defnyddwyr gwasanaeth. Adroddir hyn i'r Uwch Arweinwyr bob chwarter. Sesiynau Dysgu Cymru i'w cyflwyno i ddarparu adolygiadau cymheiriaid. 	<p>Rheolwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Rheolwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Rheolwr Dysgu a Datblygu / Rheolwr Ansawdd</p> <p>Rheolwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Rheolwr Dysgu a Datblygu</p> <p>Pennaeth Ymyriadau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>O fis Mehefin 2019</p> <p>Rhagfyr 2019</p> <p>O fis Mehefin 2019</p> <p>Gweithgarwch misol parhaus</p>
4	Galluogi rheolwyr tîm i oruchwyllo arferion yn effeithiol	Cytunwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cefnogaeth weinyddol ychwanegol i Reolwyr Tîm trwy benodi 3 Rheolwr Busnes a recriwtio 5 Gweinyddwr Arweiniol (1 i bob LDU) • Adolygu lefelau staffio Rheolwyr Tîm Cymru yn unol â'r broses o ail-fodelu adnoddau staff gweithredol 	<p>Prif Swyddog</p> <p>Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid</p>	<p>Gorffennaf 2019</p> <p>Cwblhawyd</p>



			<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno swydd Swyddog Datblygu Ansawdd yng Nghymru, lle tybir bo hynny'n briodol, i gefnogi'r agenda goruchwylio arferion • Yr effaith i'w fonitro trwy'r broses Archwilio Achos, Dysgu Cymru a Sicrhau Ansawdd OASys i fesur gwelliannau i arferion a goruchwyliaeth rheolwyr. Caiff yr holl achosion y bernir eu bod yn 'gofyn am welliant' eu tracio yn awtomatig gan y Rheolwr Ansawdd i sicrhau bod y camau gweithredu ar gyfer y meysydd i'w gwella yn cael eu cwblhau. 	<p>Pennaeth Rhagoriaeth ac Effeithiolrwydd</p> <p>Rheolwyr Tîm</p>	<p>Medi 2019</p> <p>Rhagfyr 2019</p>
5	Gwella cydlynid gweithgareddau ailsefydlu	Cytunwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu'r broses o ddarparu gwell manyleb ar gyfer y broses Trwy'r Gât (TTG) a chynyddu lefelau staff ailsefydlu ar draws yr holl garchardai • Darparu hyfforddiant i staff ailsefydlu (presennol a newydd) ar y broses wedi'i diweddaru ar gyfer cwblhau asesiadau ac adolygiadau OASys • Symud ymlaen gyda'r cynllun gwella presennol (ar gyfer partneriaid yn y gadwyn gyflenwi) ar ansawdd cynlluniau ailsefydlu • Cynnal gweithdai ledled Cymru gyda phresenoldeb rheolwyr trosedd CRC/NPS a mentoriaid Prison Advice Care Trust (PACT) TTG i hysbysu pob aelod o staff o ddiweddariadau i wasanaethau ailsefydlu yn dilyn y broses gwella a chadarnhau ar gyfer gwell cyfathrebu rhwng darparwyr TTG a RO's • Gweithredu proses sicrhau ansawdd holistig i fonitro a gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y swyddog cyfrifol a darparwr TTG. Bydd hyn yn cynnwys Archwiliadau Achos RO misol a phroses Archwilio Achosion TTG misol 	<p>Rheolwr Partneriaethau</p> <p>Rheolwr Partneriaethau</p> <p>Rheolwr Partneriaethau</p> <p>Rheolwr Partneriaethau</p> <p>Rheolwr Partneriaethau</p>	<p>Mehefin 2019</p> <p>Mehefin 2019</p> <p>Medi 2019</p> <p>Gorffennaf 2019</p> <p>Awst 2019</p>



			<ul style="list-style-type: none"> Archwiliadau achos misol gan Uned Gyflawni Leol o gynllunio ar gyfer, a rhannu gwybodaeth am y Ddalfa a Chyn-ryddhau a rhoi adborth i dîm TTG, yr Uwch Dîm Rheoli, y Swyddog Cyfrifol a'r Rheolwr Llinell Rhoi adborth misol ar yr archwiliadau i'r Uwch Dîm Rheoli a'r gadwyn gyflenwi. 	Pennaeth Rhagoriaeth ac Effeithiolrwydd	Awst 2019
				Rheolwr Partneriaethau	Awst 2019
6.	Dylai KSS: Gwneud yn siŵr fod pob adeilad a CT yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau effeithiol.	Cytunwyd yn Rhannol	<ul style="list-style-type: none"> KSS a HMPPS Cymru i lunio a chytuno ar strategaeth a chynllun TG ac Ystadau ar y cyd i Gymru. Dylai hyn gynnwys trefniadau interim ar gyfer y cyfnod cyn trosglwyddo o OM i NPS, yn ogystal â chynllun trosglwyddo a chytundeb ar ôl trosglwyddo. Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn cael ei adolygu trwy Fwrdd Pontio ar y Cyd HMPPS / Seetec Wales 	Rheolwr TGCh / Ystadau	Gorffennaf 2019
				Pennaeth TGCh / Ystadau a HMPPS Cymru	Rhagfyr 2019

Argymhellion	
Cytunwyd	5
Cytunwyd yn Rhannol	1
Ni Chytunwyd	0
Cyfanswm	6

